

Gwybodaeth am Ddiogelu Data – Cyflogwyr a Rhyngddeiliaid

Eich gwybodaeth bersonol a'r Prifysgol

Bydd Prifysgol Aberystwyth, fel y rheolwr data, yn prosesu eich data personol a rhai eich cwmni yn unol â thelerau'r Deddf Gwarchod Data a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Ceir manylion cyswllt Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol [yma](#).

Defnydd a chadwraeth o'ch gywbodaeth

Mae'r manylion personol a nodwyd gennych yn cael ei gadw ar ein cronfa ddata fel y gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd ddarparu gwasanaethau i chi fel cyflogwr a/neu rhyngddeiliad yn unol â'ch anghenion, ac i'n galluogi i gyfrannu'n effeithiol at addysgu ein myfyrwyr yn y fath fodd fel yr hybir eu potensial fel darpar aelodau staff i chi i'r dyfodol. Defnyddir eich gwybodaeth i'r pwrpasau hynny sy'n gysylltiedig â'ch cefnogi chi a'ch sefydliad yn unol â'r hyn a gytunwyd rhyngom yn nhermau eich cysylltiad â'r Brifysgol. Cedwir y wybodaeth hon gan y Brifysgol am ei fod o fewn diddordeb cyfiawn y Brifysgol i wneud hyn fel y gellir darparu budd i chi fel defnyddiwr o'n gwasanaethau, ac hefyd budd i'r Brifysgol i sicrhau fod cynllunio a rheoli gyrfa yn rhan anatod o brofiad myfyrwyr wrth fynychu Prifysgol Aberystwyth. Ceir manylion pellach ar Bolisi Gwarchod Data, Datganiad Prosesu Data yn ogystal â Hysbysiadau a Datganiadau perthnasol eraill y Brifysgol [yma](#).

Rhannu eich gywbodaeth

Bydd eich manylion yn cael ei gadw mewn cronfa ddata a ddarperir gan GTI Media Cyf., system sydd yn caniatáu i'n myfyrwyr ymgeisio am eich cyfleoedd a hysbysebiri gennym ar eich rhan, yn ogystal â'u galluogi i weld manylion y cyflwyniadau a ddarperir gennych ar y campws neu fanylion pellach am eich presenoldeb yn ein ffeiriau gyrfaoedd neu weithgareddau tebyg. Cedwir eich gwybodaeth o fewn y system hwn yn ddiogel gan GTI Media Cyf. ar offer pwrpasol wedi ei leoli yn Llundain, DU, ac ni chaiff ei rhannu gydag unrhyw bartion, sefydliadau nac asiantaethau allanol eraill.

Rhennir eich manylion, a rhai eich sefydliad, gydag adrannau penodol o gwmpas y Brifysgol mewn ymgais i sicrhau eich bod yn cael y cysylltiad penodedig a pherthnasol a ddymunir gennych gyda'r myfyrwyr hynny sydd o fwyaf o ddiddordeb i chi a'ch sefydliad. Ni chaiff y wybodaeth ei rhannu gydag unrhyw bartion, sefydliadau nac asiantaethau allanol eraill nac ychwaith gydag adrannau amherthnasol.

Wrth gofrestru fel Mentor i'n gwasanaeth eFentora a gynigir ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yr ydych yn cytuno i'ch gwybodaeth gael ei dal ar system ddiogel Aluminati Network Group yn Reading, DU. Fe'i defnyddir i sicrhau fod defnyddwyr yn cadw at y canllawiau priodol ac i ddadansoddi data ystadegol di-enw at ddefnydd mewnol y Brifysgol yn

unig. Ni chaiff eich gwybodaeth ei rhannu gydag unrhyw bartïon, sefydliadau nac asiantaethau allanol eraill.

Wrth weithredu fel cyflogwr i raglen GO Wales Cyflawni drwy Brofiad Gwaith rydych yn cytuno i'ch gwybodaeth gael ei chadw'n ddiogel ar system Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn Ne Cymru, DU. Wrth weithredu fel cyflogwr i raglen GO Wales mae CCAUC a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn gweithredu fel y rheolwyr data am yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglen, gan rhoi sail gyfreithlon iddynt gasglu, prosesu a chadw eich data i sicrhau gallent gadw at oblygiadau cyfreithiol cynllun sydd wedi ei gyllido gan yr UE; o'r herwydd, nid oes gennych hawl i ofyn i'ch data gael ei ddileu. Bydd Prifysgol Aberystwyth, fel defnyddiwr y data, yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac ni chaiff ei rhannu gydag unrhyw sefydliad, barti neu asiantaeth arall ag eithrio CCAUC.

Wrth fanteisio ar weithgareddau a gynigir gan elfen AberPreneurs ein gwasanaethau ac wrth gyfrannu at gynnwys gweithdai a gweithgareddau cyffelyb, caiff eich gwybodaeth ei chadw gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar sail diddordeb cyfiawn. Wrth gyfrannu at y gwasanaethau hyn yr ydych hefyd yn cytuno i fod yn rhan o brosiect Llywodraeth Cymru a gyllidir gan eu Strategaeth Entreprenwriaeth yr Ifanc. Mae cyfrannu i'r gweithgareddau penodol hyn yn golygu bod rhai o'ch manylion yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru yn unol â thelerau ein cytundeb cyfreithiol gyda hwy. Ni rhennir eich gwybodaeth gydag unrhyw bartïon, sefydliadau nac asiantaethau allanol eraill ac fe'i defnyddir o fewn y Brifysgol i sicrhau gallwn eich cefnogi a'ch cynorthwyo yn unol â'ch gofynion wrth gysylltu ag AberPreneurs yn y lle cyntaf.

Ag eithrio'r sefyllfaoedd a nodir uchod, ni rhennir eich data gyda phartïon eraill nac asiantaethau allanol, oni bai ein gorfodir i wneud hynny yn unol â chyfreithiau a rheoliadau cydymffurfiaeth cyrff llywodraethol neu asiantaethau penodedig. Ni throsglwyddir eich gwybodaeth tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i weld eich gwybodaeth, anghytuno gyda phrosesu eich data, neu godi cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.